

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Medi 2^{ail}, 2020 am 7.15 yh

Presennol

Cynghorwyr

R.A Davies

Mrs J.E Collins

W.D. Evans

D. Nicholas

Mrs K.D.L Davies

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr

E.W. Nicholas

756.

Datganiad o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd D. Nicholas wedi datgan buddiant yng Nghais Cynllunio B3115/PL00244 oherwydd ei fod yn ffrindiau â'r ymgeisydd, a bod ei nith yn gyn-wraig yr ymgeisydd.

757.

CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR AR FEDI 2^{ail} 2020, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.

B3112/PL00137 Estyniad un llawr gyda thô fflat i gefnlun 65 Heol y Brenin, LLANDYBÏE.

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN DEILIAD TŶ

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3113/PL00138 Amrywio Amod 2 o gais cynllunio E/25528 (adeiladu 3 thŷ dau lawr pedair ystafell wely). Cynllun diwygiedig arfaethedig ar gyfer Llain 13, Llys y Nant, Heol y Brenin, LLANDYBÏE.

- AMRYWIO AMOD(AU)

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3114/PL00245 Newid defnydd ysgol yr Eglwys Apostolaidd i gartref gofal (Dosbarth Defnydd 2), estyniad dau lawr i flaen yr adeilad, canopi uwchben y fynedfa ynghyd â gofod parcio, troi a gwaith atodol arall yn Ysgol yr Eglwys Apostolaidd, Heol y Bryn, PENYGGROES.

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Bod sylw dyledus yn cael ei rhoi i'r mynediad oddiar yr heol a'r cyfleusterau parcio a ddarperir.

B3115/PL00244 Newid defnydd tŷ annedd (Dosbarth Defnydd 3) i adnodd Gofal Preswyl (Dosbarth Defnydd C2) yn 33 Gelli Forwyn, LLANDYBÏE.

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Roedd y Cyngor Cymuned wedi nodi, gyda phryder, bod y Cartref Gofal i'w leoli mewn ardal sydd, gan fwyaf, yn un breswyl a lle mae canran o'r preswylwyr yn perthyn i'r to hŷn.

Mae lleoli'r Cartref Preswyl hwn, a lleoli preswylwyr y cartref gofal mewn ardal o'r fath yn codi pryderon dwys nid yn unig o ran amwynder y preswylwyr lleol ond hefyd eu hymdeimlad o ddiogelwch yn eu cartrefi. Mae'n glir y bydd y fath ddefnydd yn cael effaith negyddol ar y ffordd y mae'r preswylwyr yn teimlo ynghylch yr ardal y maen nhw'n byw ynddi, a'u hymdeimlad o ddiogelwch personol.

Nid yw cyflwyno defnydd o'r fath yn yr ardal hon wir yn ystyried natur bentrefol yr anheddiad, neu chwaith yn rhoi'r sylw dyledus i'w haddasrwydd fel ardal briodol i wasanaethu'r gofynion. Tra bod y Cyngor yn cydnabod bod gan y pentref ei adnoddau sylfaenol, mae'r rhain yn gyffredinol wedi'u hanelu at glybiau chwaraeon lleol a darpariaeth i blant ifanc ar ffurf meysydd chwarae. Nid oes gan y pentref y math o adnoddau a fyddai'n diwallu anghenion y preswylwyr arfaethedig. Felly, byddai'r gweithgarwch arfaethedig, a buddion y preswylwyr, yn cael eu gwasanaethu yn well drwy eu lleoli mewn tref sydd yn cynnig mynediad at gyfleusterau hamdden a gweithgareddau sy'n gweddu i'r grwpiau oedran arfaethedig. Yn ein barn ni, does ond ychydig, neu ddim, gwerth adsefydlu pan fydd y preswylwyr y cael eu lleoli lle nad oes gweithgareddau hamdden neu gymunedol priodol ar gael iddynt, a bod y cyfleusterau sydd ar gael yn fwy addas at anghenion plant yn eu harddegau. Gyda'r fath ddiffyg cyfleusterau, y canlyniad anochel bydd diflastod a diffyg canolbwyntio a fydd yn cael effaith andwyol ar y preswylwyr a'r ardal.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd darparu'r fath gyfleusterau er mwyn helpu adsefydlu ond, serch hynny, rhaid hefyd cydnabod y dyletswydd gofal i'r gymuned a phreswylwyr yr ardal. Felly, rhaid ystyried y cynnig yng nghyd destun ei effaith ehangach. Mae'n gwbl hanfodol bod barn y gymuned yn cael ei ystyried yn llawn a bod yr effaith posibl yn cael ei ddeall yn llawn wrth ddod i unrhyw benderfyniad, ac mae'r Cyngor yn credu'n gryf y byddai agwedd cytbwys yn dod i'r casgliad nad yw'r lleoliad (yn hytrach na dim ond rhinweddau'r adeilad yn unig) yn addas at y defnydd arfaethedig, a dylid chwilio am ddefnydd amgen sy'n fwy addas.

B3116/PL00256 Adeiladu portsh i flaen yr eiddo yn 15 Clos Coed Derw, PENYGROES.

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

758.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.40 yh.